

DOLEN Y TAB 134

16 – 17 Rhagfyr 2022

Oedfa Sul 18 Rhagfyr



YR OEDFAON NESAF

Ionawr

- | | |
|----|--------------------------|
| 1 | Geraint Wyn Davies |
| 8 | Y Parchedig Aled Edwards |
| 15 | Y Parchedig Denzil John |
| 22 | Dr Cynan Dafydd Llwyd |
| 29 | Edwyn Evans |

Hefyd ddydd Sul 18 Rhagfyr

12.00 Radio Cymru

Oedfa yng ngofal Guto Llywelyn, Hendygywn-ar-Daf

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.00 - 20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol - Nadolig

Daw'r rhaglen wythnos yma o Eglwys y Santes Fair, Dinbych wrth i ni ddathlu'r Nadolig. Cawn fwynhau perfformiadau arbennig, darlenniadau amserol a chydganu carolau

E–fwletin Cristnogaeth 21

www.cristnogaeth21.cymru

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Helen Prosser ar gael ei dewis yn ddiweddar yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Dewis ysbrydoledig os bu un erioed, fel un a fagwyd yn yr ardal ac sydd wedi llafurio mor egniol i hyrwyddo'r Gymraeg yn arbennig felly ymhlith dysgwyr. Yma yn y Tabernacl rydym eisoes yn ymwybodol iawn o'i rhinweddau niferus yn ychwanegol at ei brwdfydredd heintus dros yr iaith a phob agwedd o'n diwylliant. Estynnwn pob dymuniad da iddi yn y swydd a phob llwyddiant hefyd i'r eisteddfod ymhen ugain mis.



Premiere Capel y Tabernacl

Dwn i ddim a fydd Pwyllgor y Meddiannau yn gosod carped coch ar risiau allanol y Tabernacl fore Sul ai peidio, ond mae'n fwriad i ffrydio Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Twmiaid ar lwyfan Facebook i'r rhai sy'n methu bod yn bresennol. Dros y misoedd diwethaf rydym wedi elwa'n fawr iawn ar fentergarwch criw bach arwrol o'r aelodau sydd wedi llwyddo i ffrydio'r oedfaon o'u ffonau symudol tra'n aros yn amyneddgar am ddyfodiad y system newydd fydd yn uwchraddio ansawdd y sain a'r llun i'r 'gwylwyr' gartref. Wedi hir aros, byddwn yn croesawu'r system newydd am y tro cyntaf ddydd Sul. Fel eglwys rydym yn ddiolchgar iawn i Ymddiriedolaeth Partymfedwen a Chyfudneb Dwyrain Morgannwg am eu nawdd hael i dalu cyfran helaeth o'r costau.

Ond un gair o rybudd, gan fod y system newydd yn defnyddio camera llawer iawn mwy hyblyg na'r camerâu ar ffonau symudol gall eich llun ymddangos ar Facebook hyd yn oed os byddwch yn eistedd yn y gynulleidfa. Y cyngor i'r rhai nad ydynt am weld eu llun ar Facebook yw gofalu eistedd naill ai yn ym **MHEDAIR** rhes gefn llawr gwaelod y capel neu eistedd yn y galeri.

**NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Dolen y Tab Nesaf

Gan na fydd oedfa yn y Tabernacl ddydd Sul nesaf(dydd Nadolig) ni chyhoeddir rhifyn o *Dolen y Tab*. Felly, y dyddiad cau derbyn eitemau ar gyfer rhifyn olaf y flwyddyn fydd dydd Iau 29 Rhagfyr.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd o'r Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 10 Ionawr. Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech i'r Bwrdd ei drafod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd erbyn dydd Llun 9 Ionawr at 01443 225205; 07710 237327 (neges testun), neu gehpengwern@yahoo.co.uk



CYLCH CADWGAN

Clwb y Dwrllyn

'Y Cyfansoddiadau - y ffraeo a'r gwobrwyo'
**Noson yng nghwmni
Vaughan Hughes**

8 o'r gloch
Nos Iau 9 Chwefror
Clwb Rygbi Pentyrch

Mynediad: £3

**Cydnabyddir cefnogaeth
Llenyddiaeth Cymru**

Casgliadau 2022

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl drwy'r platiau casglu, hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau ar ddydd olaf y flwyddyn. Mae un cyfle arall i chi gyflwyno'ch cyfraniadau yn yr oedfa, sef dydd Sul yma (18 Rhagfyr), neu medrwc anfon sic i **Capel y Tabernacl Cyf.** at: Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Os byddwch yn postio at Arwyn, rhowch y sic mewn amlen wen neu frown gan nodi eich rhif aelodaeth. Fel arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown, ynghyd â rhoi eich rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli: 30-96-72

Rhif y cyfrif: 03607499

Capel y Tabernacl, Efail Isaf

Carolau Nadolig / Christmas Carols



5.30 yh/pm
Noswyl Nadolig / Christmas Eve
Rhagfyr **24** December

Croeso i Bawb / All Welcome

**Cyngerdd
NADOLIG**
18 Rhagfyr
2022

**CÔR GODRE'R GARTH
A CHÔR Y CWM** 7 yh/pm

CAPEL Y TABERNACL, EFAIL ISAF

Tocynnau wrth y drws
Tickets on the door

Elw tuag at Tenovus
Proceeds towards Tenovus

£8.00 / £3.00



BABI TWM



Y Ganolfan,
Capel Tabernacl

10.00-11.30



Rhagfyr 5ed a 19eg



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i
plant/wyrion/wyresau

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledanu newyddion a chyhoeddiadau trwy gyfrwng e-bost a thudalen Facebook yr eglwys.

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk